**LC1231**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006

O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae grant cynnal refeniw yn daladwy i gyrff sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol.

Er mwyn i grant cynnal refeniw fod yn daladwy i unrhyw gorff o'r fath, rhaid bod y corff hwnnw wedi'i enwi mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000") drwy ddileu dau gorff o'r rhestr o gyrff penodedig yn Rheoliadau 2000 ac ychwanegu corff newydd at y rhestr honno.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae'n briodol bod y wyddor Saesneg yn cael ei defnyddio yn nhestun Cymraeg y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn gan fod Rheoliadau 2000 wedi'u drafftio gan ddefnyddio'r wyddor Saesneg yn

rheoliad 3 lle y rhestrir y cyrff penodedig.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 28 Chwefror 2006